**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Mai 2017

Annwyl Brif Weinidog

**Penodi aelod newydd o fwrdd y BBC ar gyfer Cymru**

O dan Siarter newydd y BBC, bydd gan fwrdd llywodraethu y BBC aelod cenedlaethol anweithredol ar gyfer Cymru. Llywodraeth y DU sy'n wynebu'r dasg o benodi aelod cenedlaethol ar gyfer Cymru, ond mae'n rhaid cael cydsyniad gan Lywodraeth Cymru cyn penodi.

Fel y gwyddoch, yn ddiweddar fe wnaeth Llywodraeth Cymru wrthod cydsynio i ymgeisydd dewisol Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd. Yn dilyn hyn, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penderfynu ailgynnal yr ymarfer recriwtio. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod mwy o amser gennym i ystyried a ddylai'r penodiad fod yn destun gwrandawiad cyn penodi gerbron y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Yn ei adroddiad 'Y Darlun Mawr', argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ymatal rhag cydsynio i benodiad nes bod y Pwyllgor wedi cael cyfle i gynnal gwrandawiad gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd. Byddai hyn yn unol â'r trefniadau ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd newydd, na ellir ei benodi oni bai y cynhelir gwrandawiad cyn penodi yn ogystal ag adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Dethol Tŷ 'r Cyffredin.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'n hargymhelliad hyd yma. Fodd bynnag, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 10 Mai, fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes nodi y ffafriai ef gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer y penodiad hwn, ond nid oedd yn barod i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor heb gytundeb mwy cyffredinol gan Lywodraeth y DU ar gyfer holl ddeddfwrfeydd y DU.

Mae dau reswm dros ysgrifennu'r llythyr hwn felly. Yn gyntaf, hoffwn ofyn a fyddech chi'n ailystyried y penderfyniad i beidio derbyn argymhelliad y Pwyllgor i ymatal rhag cydsynio penodiad ymgeisydd nes y cynhelir gwrandawiad? Mae'n ymddangos bod hwn yn fater a reolir yn llwyr gan Lywodraeth Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

Tra mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am yr ymarfer recriwtio, mater i Lywodraeth Cymru yw cadarnhau'r penodiad.  Nid yw'n ymddangos yn afresymol i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn eglur i Lywodraeth y DU ei bod yn ystyried gwrandawiad cyn penodi i fod yn rhan angenrheidiol wrth ystyried a ddylid cymeradwyo'r ymgeisydd.

Fy ail reswm dros ysgrifennu yw i ofyn i chi ysgrifennu at eich cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn gofyn iddynt gytuno, fel yr awgrymwyd gan y Gweinidog, fod gwrandawiadau cyn penodi yn hanfodol i bob deddfwrfa yn y DU ar gyfer swyddi fel hyn.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir



**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd**